# GRANT CYFALAF OFFER CHWARAEON CFfG y DU

## Canllawiau 2024

| 1.0 | PURPOSE OF THE FUND: |
|---|---|

Pwrpas y grwnt hwn yw cynnig cymorth cyfalaf i brynu offer chwaraeon i glybiau chwaraeon ym Merthyr Tudful.

Mae'n cael ei ariannu gan flaenoriaeth "Cefnogi Busnes Lleol" Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU (CFfG y DU) a bwriad y grant yw cyflawni amcanion Ffyniant Bro Llywodraeth y DU:

Creu swyddi a hybu cynhwysiant cymdeithasol drwy fuddsoddi mewn diwydiannau a sefydliadau cyfredol a chefnogi dechrau busnesau i wella manwerthu lleol, cyfleusterau lletygarwch a hamdden.

Hybu rhyngweithio a chydweithio drwy ymyriadau sydd yn dwyn busnesau a phartneriaid ynghyd er mwyn rhannu gwybodaeth, arbenigedd ac adnoddau sydd yn sbarduno dyfeisgarwch a ffyniant.

Adfer ymdeimlad o gymuned, balchder lleol a pherthyn, yn enwedig mewn lleoedd lle y collwyd hynny.

Grymuso arweinwyr lleol a chymunedau, yn enwedig mewn lleoedd lle nad oes asiantaeth leol

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn monitro'ch porosiect yn erbyn allbynnau a deilliannau perthnasol sydd yn gysylltiedig ag ymyriadau penodol Llywodraeth y DU. Bydd y manylion hyn yn cael eu cynnwys yn y llythyr cynnig grant. Am ragor o wybodaeth, gweler UK Government Shared Prosperity Fund Prospectus

| 2.0 | BETH ELLIR EI ARIANNU: |
|---|---|

**Bydd Grant Cyfalaf Offer Chwaraeon CFfG y DU yn ariannu:**

- Prynu offer chwaraeon (gan gynnwys citiau)
- Mae TAW yn costio os nad yw'r sefydliad wedi'i _gofrestru ar gyfer TAW.

**Gwariant Anghymwys:**

- Costau refeniw,
- Costau prynu adeiladau, tir neu gerbydau,

- Hurbwrcasu / Prynu ar les,
- Costau rhent, cyfraddau, gweinyddiaeth, cerbydau; costau gwaith sydd yn cael ei wneud fel gofyniad cyfreithiol, statudol,
- Costau sydd yn gysylltiedig â chostau rhedeg cyffredin,
- Costau wrth gefn a chyfleustodau,
- Gweithdrefnau statudol fel caniatâd cynllunio neu reoliadau adeiladu,
- Offer / eitemau sydd yn cael eu defnyddio unwaith, yn flynyddol neu sydd yn dymhorol,
- Costau ôl-weithredol h.y. costau offer neu waith sydd eisoes wedi cael eu gwneud,
- Costau TAW i sefydliadau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW
- Costau staff/marchnata
- Hyfforddiant chwaraeon

## 3.0 PWY ALL YMGEISIO:

**Gallwch wneud cais am Grant Cyfalaf Offer Chwaraeon CFfG y DU os yw'ch sefydliad:**

- Yn Glwb neu'n grŵp chwaraeon wedi'i loli ym Merthyr Tudful sydd â chyfrif banc ar gyfer y clwb.

**Nid ydych yn gymwys am Grant Cyfalaf Offer Chwaraeon CFfG os ydych:**

- Yn fusnes preifat (gweler Grant Cyfalaf CFfG ar gyfer Busnes)
- Yn fusnes / grŵp anghorfforaethol,
- Rydych yn glwb'grŵp chwraeon heb gyfrif banc,
- Os oes gan eich sefydliad/ymgeisydd unrhyw ôl-daliadau ariannol â'r Cyngor.

## 4.0 FAINT ALLAF WNEUD CAIS AMDANO:

Bydd y grant yn ariannu hyd at 100% o gyfanswm costau cymwys y prosiect hyd at £500.

## 5.0 AMSERLEN ARIANNU:

| Gweithgaredd | Amserlen/Dyddiad Cau |
|---|---|
| Cynlluniau grant yn agor | Dydd Gwener 8fed Mawrth 2024 |
| Dyddiad cau ar gyfer y cais | 5pm Dydd Gwener 3ydd Mai 2024 |
| Penderfyniad i ymgeiswyr | Erbyn 31ain Mai 2024 |
| Monitro ac Ymgysylltiad | Mehefin – Rhagfyr 2024 |
| Monitro Terfynnol a chau'r Grant | 18 Rhagfyr 2024 |

## 6.0 RHAGOR O WYBODAETH:

Cyn y dyddiad cau, bydd angen i chi gyflwyno ffurflen gais sydd wedi ei chwblhau yn cynnwys yr holl wybodaeth benodol sydd yn y rhestr wirio. Lle bynnag y bo hynny'n bosib, cynhwyswch dystiolaeth o'ch pryniant arfaethedig e.e. amcangyfrif neu siot sgrin o gost ar-lein.

**Nodwch:** ni fydd ffurflenni cais nad sydd wedi eu cwblhau'n gyflawn yn cael eu hasesu. Sicrhewch eich bod yn cwblhau pob rhan ac yn cyflwyno pob dogfen angenrheidiol.

1 clwb, 1 cais yn unig h.y. ni all clybiau ymgeisio fwy naf unwaith ar gyfer grwpiau oed gwahanol oddi fewn i'r clwb. Nid yw'r grant hwn yn ariannu Hyfforddiant Chwaraeon.

Gall lleoliadau cymunedol wneud cais am grant Offer chwaraeon; fodd bynnag, bydd clybiau chwaraeon yn cael eu bl;aenoriaethu. Gweler cyfleoedd ariannu amgen drwy Grant Cyfalaf Mentrau Cymdeithasol CFfG.

Ni fydd grantiau'n cael eu cynnig a'u talu i glybiau neu ymgeiswyr sydd ag ôl-daliadau â'r Awdurdod Lleol. Bydd gwiriadau'n cael eu gwneud.

Bydd yr arian grant yn cael ei dalu, drwy BACS i'r cyfrif banc wedi i ni dderbyn derbynebau gwreiddiol sydd wedi'u talu a datganiadau banc cyfatebol neu mewn amgylchiadau arbennig, yn seiliedig ar asesiad achos busnes wedi i ni dderbyn anfoneb.

Bydd angen i bob prosiect gael eu cwblhau erbyn 18 Rhagfyr 2024 gan gynnwys tystiolaeth gwariant.

Byddwn yn derbyn pob cais a dogfennaeth drwy e-bost. Cyflwynwch eich cais i economic.development@merthyr.gov.uk.
Sylwch hefyd nad yw cyflwyno cais yn gwarantu cyllid.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â economic.development@merthyr.gov.uk yn y lle cyntaf.

## 7.0 MEINI PRAWF Y RHESTR FER AC ASESU:

Bydd eich cais yn destun gwiriad dilysu cychwynnol er nwy sicrhau eich bod wedi cyflwyno'r wybodaeth gywir. Yn ychwanegol, bydd pob sefyldiad / busnes yn destun gwiriadau diwydrwydd fel rhan o'n prosesau amodau grant.

Bydd y panel asesu'n edrych am dystiolaeth o'r modd y gall y grant alluogi sefydliadau i gynnal/gwella darpariaeth chwaraeon, ymgysylltu â chyfranogwyr newydd/aelodau a dylai'r cias fod mewn ymateb i angen.

**Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r Tîm Mentergarwch ar economic.development@merthyr.gov.uk**

LEVELLING UP — FFYNIANT BRO